8-64

# PENILLION COFFADWRIAETHOL

AM

## Foddiad pump o Ddynion wrth geisio achub Bywyd.

Aeth bâd a phump o ddynion,
I geisio achub criw:
Ar chweched-foreu-ar-hugain,
O fis Chwefror, chwerw yw;
Aeth tri o fechgyn gwrol,
Dau wr oedd hynod wiw,
I geisio achub pobol,
Ond ni ddaethant 'n ol yn fyw.

Mair a'r Megan Creton
Yn driftio, pan glywsant hwy
Ergydion oedd yn drymion,
A'r storm yn codi'n fwy,
Cyffro am achub bywyd
Oedd yn y badwyr dewr,
Ond hwy wynebodd angau
Cyn toriad boreu wawr.

Trychineb oedd ofnadwy,
  Gwel'd pump yn colli bywyd,
Wrth geisio rhoi cynorthwy
  Ond boddi wnaethant hwy,
'Roedd tri yn fechgyn ieuanc,
  A dau o honynt wŷr,
Dyma helynt dychrynllyd,
  'Does neb ond Duw a ŵyr.

Roedd un a chwech o deulu,
  Yn gadael ar ei ol,
I wylo hidl ddagrau,
  O hiraeth ar eu ol :
Tom Thomas oedd ei enw,
  Y morwr hynod dewr.
Oedd fentrus diwrnod hwnw,
  Cyn toriad boreu wawr.

'Roedd un a gwraig bur ieuanc,
  A chanddi faban bach,
Cael ei gadael yn bur unig,
  Heb gymorth ond ei braich,
I ymladd byd o bechod,
  A wylo am ei gwr,
O dyro gymorth hynod,
  Ymddiried iti'n llwyr.

Y bad oedd dan ei hwyliau,
  Wrth drugaredd gwynt a'r mor,
Ond eigion mawr a'i llyncai,
  Heb rybudd funyd awr ;
Yn ngwaelodion mae eu beddrod,
  Yn bump o ddewrion wyr,
Yn fedrus ar y storom
  I geisio achub gwyr.

OC 35134386

'Roedd tri o honynt ieuanc,
Un enw Richard Bell,
A'r llall oedd Richard Owen,
Yn byw ddim 'mhell o'r llall;
Ond daeth dau yn bur ifanc,
I feddrod eigion mawr,
Yn ngwaelodion dragwyddoldeb,
Heb rybudd funyd awr.

'Roedd Hughie Evans hynod
Yn cynal gweddw fam,
Yr unig fab oedd ganddi
Rhag iddi gael 'r un cam;
'Roedd iddi yn gynorthwy,
Ac hefyd yn fawr rhan:
Ond hwn sydd wedi dianc,
Ni ddaeth yn ol i'r lan.

Daeth y bad na'r un o'r badwyr
I ymyl y ddwy long,
Gan wyntoedd a thonnau mawrion,
Oedd yn curo y bad i lawr;
A thonnau yn eu curo
Ar frig y creulon don,
Ond boddi wnaeth pump Cymro
Cyn toriad gwawr o'r bron.

Boreu Sul dydd hynod hwnw,
O fis Chwefror daeth a braw,
Colli pump o fadwyr dewrion,
Ar y storom gwynt a gwlaw,
Pump oedd byw yn yr un heol,
Ac yn fadwyr gwrol dewr,
Ac mewn awydd achub pobol,
Mewn llawer storom fawr.

O Arglwydd Dduw anfeidrol,
A Iesu Ceidwad hedd,
O bydd yn gymorth dadol,
I'r amddifaid sy' dan Dy wedd,
A'r gweddwon sy'n unigol,
O Dduw bydd iddynt hwy,
Y nerth a chymorth gadarn,
I lechu dan Dy glwy.

O Iesu Grist y nefoedd,
Tosturiol ydyw Ef.
Brawd llawn o hedd dangnefedd,
Brawd hynaf fedd y nef:
Bydd yn gymorth i'r teulu,
Sydd mewn trallod yma 'n awr,
'R ol colli anwyl fechgyn,
Mewn mor o ddyfnder mawr.

Cant eto wel'd eu bechgyn,
A'r gwyr oedd hynod wiw,
Ar foreu pryd y bernir
Yn gyfiawn gan Fab Duw,
Ar foreu pryd y bernir,
Holl lwythau dynolryw,
A'r tân yn llosgi'r ddaear,
A'r meirw'n dod yn fyw.

Anfeidrol Dduw ein Ior,
Gwneithurwr tir a mor,
Creawdwr nef a llawr;
O cofia Di yn awr,
Y gweddwon a'r amddifaid sydd,
Yn fyw ar Dy haeddiant Di bob dydd

**BEN. DAVIES JONES,**

1905. (MORLAIS CYBI).